

Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru

Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf 2016 - 2026



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales



Cyflwyniad

Mae Cymru'n lle gwych i fyw a gweithio.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau ei gwarchod ar eich cyfer chi a'r dyfodol.

Mae rheoli a defnyddio ynni'n dda yn rhan bwysig o hyn.

Rydyn ni'n defnyddio ynni bob dydd yn ein cartrefi, ein hysgolion a'n busnesau.

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthyhych chi am ein Strategaeth (cynllun) Effeithlonrwydd Ynni newydd ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

i Llywodraeth y DU sy'n gwneud cyfreithiau ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni ond rydyn ni eisiau gwneud popeth y gallwn ni fel bod Cymru'n defnyddio ac yn rheoli ei hynni'n dda.



Mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni yma'n bwysig ac yn gyfle go iawn i Gymru. Mae hefyd yn ein helpu ni i gyrraedd nodau eraill o ran trechu tlodi, y newid yn yr hinsawdd a swyddi. Mae'r rhain yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).



Beth ydy Effeithlonrwydd Ynni?

Ystyr Effeithlonrwydd Ynni yw defnyddio llai o ynni i gael yr un gwasanaeth neu gynnyrch.

Mae yna lawer o ffyrdd i arbed ynni, and mae bod yn ynni-ffeithlon yn wahanol.

Arbed ynni



Diffodd goleuadau dydych chi ddim yn eu defnyddio, neu rannu car.

Effeithlonrwydd ynni



Newid i fŷlb neu gar sy'n fwy ynni-ffeithlon.



Ein Gweledigaeth

Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn y sefyllfa orau a gallu:

- **gweld** y cyfleoedd o ran effeithlonrwydd ynni
- **tyfu** ym maes technoleg, sgiliau a gwybodaeth arbenigol
- **gwerthu** nwyddau a gwasanaethau ar hyd a lled y byd.

I gyrraedd ein gweledigaeth, mae yna bum maes y mae angen i ni roi sylw iddyn nhw:



- **1. Cael pawb i chwarae rhan** – mae angen i bawb gymryd rhan a gwneud newidiadau i fod yn ynni-effeithlon.
- **2. Tyfu cadwyni cyflenwi** – mae angen i bawb allu cael y cynhyrchion a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw, a hynny pan mae eu hangen.
- **3. Bod â gweithlu cryfach** – mae angen i staff fod wedi'u haddysgu a'u hyfforddi yn y sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau ynni-effeithlon.
- **4. Bod yn arloesol** – mae angen bod â ffydd mewn syniadau a thechnoleg ynni-effeithlon newydd, ac mae angen iddyn nhw allu tyfu.
- **5. Bod â chynlluniau ariannu** – mae angen defnyddio arian yn y ffyrdd gorau.

Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae effeithlonrwydd ynni'n helpu bywydau pobl mewn gwahanol ffyrdd.

Bydd cymryd camau nawr a chynllunio ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn y dyfodol:

- yn helpu iechyd a lles
- yn rhoi mwy o swyddi a busnesau newydd i Gymru
- yn helpu'r amgylchedd ac yn lleihau carbon
- yn cwtogi ar gostau i fusnesau
- yn helpu pobl i fforddio'u biliau tanwydd ac yn atal tldi tanwydd
- yn ein helpu ni i gyrraedd ein nodau tymor hir ar gyfer Cymru
- yn helpu i gyrraedd Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig.



1. Cael pawb i chwarae rhan

Mae yna lawer o bethau sy'n atal pobl rhag bod yn fwy ynni-ffeithlon. Mae yna rai pobl sydd ddim yn ffyddiog y bydd effeithlonrwydd ynni'n gwneud gwahaniaeth. Maen nhw'n meddwl ei fod yn cymryd amser ac mae'r costau'n gallu eu rhwystro. Rydyn ni eisiau newid hyn.

Ar gyfer cartrefi teuluol:

- fe fydd gennym ni fwy o wybodaeth am effeithlonrwydd ynni
- fe fyddwn ni'n cefnogi pawb fel eu bod nhw'n deall bod effeithlonrwydd ynni hefyd yn helpu iechyd ac yn helpu i drechu tldi
- fe fyddwn ni'n cefnogi technoleg newydd, fel mesuryddion deallus



i Mesuryddion deallus – yn helpu pobl i gadw llygad ar yr ynni y maen nhw'n ei ddefnyddio, ac yn dangos iddyn nhw lle gallen nhw gwtogi arno.

- fe fyddwn ni'n helpu pobl i weld a oes yna grantiau i'w cefnogi nhw
- fe fyddwn ni'n cefnogi pobl sy'n byw mewn tai sydd ddim yn ynni-ffeithlon
- fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod landlordiaid yn dilyn y cyfreithiau
- fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod adeiladau newydd yn ynni-ffeithlon
- fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pob tŷ y mae awdurdodau lleol yn berchen arno'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru
- fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod prosiectau cymunedol yn dweud wrth bobl am effeithlonrwydd ynni a sut mae'n arbed arian
- fe fydd gennym ni ganllawiau (rheolau) cynllunio newydd ar gyfer awdurdodau lleol.

Ar gyfer busnesau:

- fe fydd gennym ni fwy o wybodaeth am effeithlonrwydd ynni
- fe fyddwn ni'n gweithio gyda busnesau mawr i gwtogi ar ynni
- fe fyddwn ni'n rhoi mwy o gymorth i fusnesau o ran hyfforddiant, sgiliau a chynngor
- fe fyddwn ni'n annog landlordiaid busnes i fod yn fwy ynni-ffeithlon.



Ar gyfer awdurdodau lleol:

- fe fyddwn ni'n rhoi mwy o gyngor a chymorth
- fe fyddwn ni'n rhannu syniadau da a straeon llwyddiant fel bod awdurdodau lleol yn gallu gweld beth sy'n gweithio'n dda mewn lleoedd eraill
- fe fyddwn ni'n gwario ein harian ar brosiectau effeithlonrwydd ynni.



2. Tyfu ein cadwyni cyflenwi

Cadwyn gyflenwi – y bobl, y gweithgareddau a'r busnesau sy'n chwarae rhan mewn cael rhywbeth i gwsmer.

Dylai pawb allu cael y cynhyrchion a'r gwasanaethau ynni-ffeithlon sydd eu hangen arnyn nhw, a hynny pan mae eu hangen.

Byddwn ni:

- yn cefnogi busnesau i newid cyfeiriad a hyfforddi staff mewn cynhyrchion a gwasanaethau ynni-ffeithlon newydd
- yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi effeithlonrwydd ynni i dyfu
- yn cefnogi cadwyn gyflenwi effeithlonrwydd ynni Cymru trwy eu cael i gyflawni prosiectau rydyn ni'n eu hariannu
- yn llunio safonau ansawdd newydd i feithrin ffydd.



3. Tyfu'r gweithlu

Rydyn ni eisiau i fusnesau effeithlonrwydd ynni dyfu ac i staff gael eu hyfforddi yn y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i wneud eu swydd yn dda.

Byddwn ni:

- yn cefnogi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sylweddoli pa hyfforddiant sydd ei angen i helpu busnesau yn eu hardal nhw
- yn defnyddio cyllid hyfforddi yn y ffyrdd gorau
- yn cynnwys cyflogwyr pan fyddwn ni'n cynllunio rhaglenni hyfforddiant a phrentisiaethau newydd
- yn gwneud yn siŵr bod hyfforddiant, cymwysterau a phrentisiaethau'n diwallu anghenion dysgwyr ac anghenion cyflogwyr
- yn gwneud effeithlonrwydd ynni'n rhan o'n cwricwlwm ysgolion newydd yn 2018, sef 'Cwricwlwm i Gymru: cwricwlwm am oes'
- yn cefnogi busnesau i gysylltu mwy ag ysgolion
- yn parhau i gefnogi ein rhaglen Eco-Sgolion.

Mae 95% o ysgolion Cymru'n cymryd rhan yn y rhaglen Eco-Sgolion. Maen nhw'n gwneud prosiectau ar bynciau sy'n cynnwys prosiectau ailgylchu, defnyddio dŵr ac effeithlonrwydd ynni.

4. Arloesi

Arloesi – syniadau creadigol newydd a dulliau newydd o wneud pethau.

Rydyn ni eisiau cefnogi syniadau effeithlonrwydd ynni creadigol newydd y mae modd eu defnyddio ar hyd a lled y byd.

Mae hyn yn cynnwys:

- cefnogi ein prifysgolion a'n busnesau
- cefnogi pobl i fod â ffydd mewn gwasanaethau a rhannu ag eraill pan mae rhywbeth yn gweithio'n dda.

Byddwn ni:

- yn helpu busnesau i farchnata a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd
- yn cefnogi ac yn rhoi cyngor ar ddefnyddio technoleg newydd, fel mesuryddion deallus
- yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar dechnoleg effeithlonrwydd ynni
- yn gweithio gydag awdurdodau lleol i redeg prosiectau ynni mewn cymunedau
- yn rhoi cyfleoedd i fusnesau yng Nghymru a gwledydd eraill ddysgu'r naill oddi wrth y llall
- yn parhau i ddarparu rhaglenni effeithlonrwydd ynni eraill
- yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd.



Mae arloesi'n bwysig i gael swyddi.

Yn y DU:

- mae trosiant busnesau effeithlonrwydd ynni yn £21 biliwn
- mae busnesau effeithlonrwydd ynni'n cyflogi 150,500 o bobl.

Yng Nghymru, £736 miliwn ydy'r trosiant.

Mae hyn yn helaeth, ond mae yna gyfle go iawn i dyfu a chreu mwy o swyddi.



5. Ariannu

Rydyn ni eisiau gwneud mwy ond mae'n bwysig bod yr arian i gyd yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd gorau a lle mae'r angen mwyaf amdano.

I helpu ag ariannu teuluoedd a chartrefi:

- fe fydd gennym ni wybodaeth well am ariannu
- fe fydd gennym ni wybodaeth am grantiau i bobl sy'n byw mewn tlodi neu mewn cartrefi sydd ddim yn ynni-ffeithlon
- fe fyddwn ni'n cynnig benthyciadau llog isel i helpu pobl i wneud newidiadau ynni-ffeithlon
- fe fyddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ariannu effeithlonrwydd ynni
- fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod sut i newid o un cyflenwr ynni i un arall i arbed arian.

I helpu ag ariannu busnesau:

- fe fydd gennym ni fwy o wybodaeth
- fe fyddwn ni'n cefnogi busnesau i dyfu trwy grantiau, benthyciadau a chyngor arall ar arian.

I helpu ag ariannu awdurdodau lleol a gwasanaethau:

- fe fyddwn ni'n parhau i gynnig benthyciadau di-log ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni
- fe fyddwn ni'n eu helpu nhw i newid i Gontractau Perfformiad Ynni sy'n arbed arian.

Y camau nesaf

Dros y 10 mlynedd nesaf, fe fyddwn ni'n gweithio i gynnwys pawb i gyrraedd ein nodau ar gyfer effeithlonrwydd ynni.

Diolch am ddarllen hwn
Gallwch chi ddarllen mwy yma:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/efficiency/?lang=cy>

